# Adroddiad Arolygu

**Cylch a Ti a Fi Gwyddelwern**

**Neuadd Y Pentref Gwyddelwern**
**Gwyddelwern**
**Corwen**
**LL21 9DH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/04/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch a Ti a Fi Gwyddelwern

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Gwyddelwern |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb


*Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19; felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.*

Mae'r plant yn fodlon eu byd, ac maent yn mwynhau eu hunain yn y gwasanaeth hwn, am eu bod yn cael eu parchu a'u bod yn brysur yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, ac mae'r staff o'r farn bod eu diddordebau yn bwysig. Maent yn ddiogel, yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu gwneud pethau drostynt eu hunain.

Mae'r staff galluog yn gofalu am y plant yn dda ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch y plant. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn garedig ac yn deg, ac mewn ffordd y mae'r plant yn ei deall. Maent yn brofiadol ac yn darparu gweithgareddau diddorol er mwyn helpu'r plant i ddatblygu'n dda.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, ac mae digonedd o ardaloedd chwarae a gweithgareddau wedi'u gosod allan i feithrin sgiliau. Mae'r ardal dan do a'r ardal awyr agored yn addas ar gyfer y plant. Mae digonedd o deganau a gemau ar gael, ac mae'r rhain mewn cyflwr da.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn wybodus am yr arferion gofal plant presennol ac mae hyn yn sicrhau lefel dda o ofal ar gyfer y plant. Maent yn gwneud gwelliannau er budd y plant a'u teuluoedd. Maent yn cefnogi tîm o staff ymroddedig. Mae partneriaethau llwyddiannus a chadarn â'r rhieni, sy'n helpu'r plant i deimlo'n gartrefol ac yn helpu eu teuluoedd i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

## Llesiant

Mae gan y plant lais cryf a gallant ddylanwadu ar eu gofal. Maent yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, ac mae'r staff o'r farn bod eu diddordebau yn bwysig. Er enghraifft, roedd amrywiaeth dda o weithgareddau i ddewis o'u plith dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r plant yn dysgu sut i gydnabod teimladau plant eraill, a gwelwyd hyn yn ystod amser cylch pan ofynnodd y staff iddynt sut roeddent yn teimlo, a gwnaethant ystyried y rhesymau gyda'i gilydd.

Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff sy'n darparu gofal o ansawdd da yn gyson. Maent yn fwy na pharod i fynd at y staff am help, ac maent yn sgwrsio â nhw'n anffurfiol. Mae'r plant yn dod yn hyderus ac yn wydn. Er enghraifft, pan syrthiodd plentyn ar yr iard, cafodd ei gysuro'n gyflym cyn parhau i chwarae. Mae'r plant wedi setlo ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni a'u gofalwyr. Maent yn cael ymdeimlad o berthyn mewn ffyrdd amrywiol; mae ganddynt fan personol ar gyfer eu bagiau; maent yn gyfarwydd â'r trefniadau ac yn fwy na pharod i archwilio. Rhoddir cyfrifoldebau syml a chymorth iddynt gan ddefnyddio'r system Helpwr Heddiw, sy'n rhoi hwb i'w hunan-barch ac ymdeimlad o gyflawniad.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff a'r plant eraill. Maent yn cydweithio'n dda ac yn sgwrsio'n hapus, er enghraifft maent yn gwybod i ba grŵp lliwiau y maent yn perthyn wrth wahanu ar gyfer gweithgareddau. Maent yn cymryd eu tro gyda'r beiciau ac eitemau eraill. Mae'r plant yn adnabod ei gilydd wrth eu henwau ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae, ac yn ymgysylltu ag ef. Gwelsom fod y plant yn ymddiddori mewn amrywiaeth o weithgareddau a arweinir gan oedolion a ganddynt eu hunain, megis gwaith crefft. Roeddent wedi tyfu planhigion o hadau ac roeddent wrth eu bodd yn sôn wrthym am eu blodau haul. Roedd hi'n braf gweld y plant yn gweithio gyda'i gilydd i symud cangen fawr yn yr awyr agored a oedd wedi cwympo i mewn i'w hardal chwarae.

Mae'r plant yn cael cyfleodd i wneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn dewis teganau a gweithgareddau, ac yn rhoi teganau i gadw ar ôl eu defnyddio cyn cael byrbryd. Mae'r plant yn cadw eu platiau a'u cwpanau ar ôl amser byrbryd. Gall y rhan fwyaf o'r plant wisgo eu cotiau ar eu pen eu hunain a gwelsom un plentyn yn dyfalbarhau nes iddo lwyddo.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, ac maent wedi adolygu'r gwasanaeth a'r gofal yn unol â'r canllawiau yn ymwneud â phandemig COVID-19. Mae'r staff yn cael hyfforddiant cyfredol ar amddiffyn plant, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae trefniadau manwl ar waith ar gyfer glanhau, a chaiff y rhain eu dogfennu. Mae'r staff yn gallu siarad yn hyderus am ddiogelu a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon am blentyn. Maent yn darparu byrbrydau iach, megis amrywiaeth o ffrwythau a chracers gyda llaeth neu ddŵr i'w yfed. Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff rheolaidd yn yr awyr iach. Caiff damweiniau eu cofnodi'n foddhaol. Fodd bynnag, o ganlyniad i COVID-19, nid yw'r rhieni yn llofnodi i gadarnhau eu bod wedi cael y wybodaeth. Dywedodd y person â chyfrifoldeb ei fod yn rhoi gwybod i'r rhieni dros y ffôn.

Roedd y staff yn ymddiddori wrth ryngweithio â'r plant. Maent yn cefnogi'r plant i reoli eu hymddygiad a hybu eu hunan-barch; maent yn dathlu ymddygiad da, megis tacluso neu olchi eu dwylo. Mae'r staff yn dangos esiampl dda wrth iddynt ryngweithio a siarad â'r plant. Maent yn creu cyfnodau cymdeithasol ar gyfer y plant, gan gynnwys amseroedd byrbryd. Clywsom drafodaeth hyfryd am y Lindysyn Llwglyd yn ystod amser byrbryd. Gwnaeth y staff gymharu lliw y lindysyn â'r pili-pala lliwgar, a thrafodwyd maint newidiol y lindysyn â'r plant a aeth ati i gyfrif ei smotiau niferus.

Mae'r gwaith cynllunio wythnosol yn ystyried pob maes dysgu ac yn cynnwys gweithgareddau a arweinir gan oedolion. Mae hyn yn sicrhau datblygiad cyffredinol y plant. Caiff ffurflenni cofrestru cynhwysfawr eu cwblhau ar gyfer pob plentyn sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am eu hoff bethau a'u diddordebau. Mae hyn yn hwyluso'r gwaith o gynllunio gweithgareddau er mwyn eu teilwra i'r plentyn unigol. Caiff cynnydd y plant ei olrhain a'i gofnodi. Darperir adolygiad i'r rhieni i'w drafod bob hanner tymor, a chaiff ei ategu gan ffolder o waith y plant.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn datblygu amgylchedd da i wella profiadau'r plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da, sy'n darparu lle diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu. Roedd y fynedfa wedi'i chloi'n sownd, ac roedd cloch ar gael i'r rhieni ei chanu i gael sylw. Mae'r asesiadau risg yn fanwl ac mae'r staff yn eu dilyn, gan gynnwys asesiadau risg penodol ar gyfer COVID-19, a chânt eu hadolygu yn ôl yr angen. Mae hyn yn sicrhau bod y staff yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel, a welwyd gan fod y plant yn cael eu goruchwylio'n gyson.

Mae'r staff yn sicrhau bod y lle yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, ac roedd yr ardal dan do a'r ardal awyr agored wedi'u cynllunio'n dda mewn ardaloedd chwarae a dysgu amrywiol. Mae digonedd o le ar gael i'r plant, gan gynnwys neuadd fawr a thair ardal wahanol yn yr awyr agored – iard fawr, ardal gaeedig wedi'i orchuddio â rhisglau a gardd gaeedig. Mae hyn yn golygu y gall y plant fwynhau amrywiaeth o leoedd i chwarae a dysgu. Mae cyfleusterau addas ar gael i bawb, gan gynnwys toiledau, cegin fawr i baratoi byrbrydau, a chyntedd lle caiff hysbysiadau eu harddangos i rieni a gofalwyr. Er na all rhieni fynd i mewn i'r adeilad o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19, caiff rhai posteri a hysbysiadau eu harddangos ar y drws, gan helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni.

Mae'r safle yn addas i blant, a chaiff teganau ac adnoddau eu gosod o fewn cyrraedd y plant. Mae'n olau ac yn llachar, ac mae gwaith y plant yn cael ei arddangos. Mae dodrefn addas ar gyfer y plant, ac mae'r adnoddau (sy'n addas ar gyfer oedran y plant) yn lân ac mewn cyflwr da. Mae digon o le storio ar gyfer teganau a stociau o nwyddau traul, megis papur a phaent, gan sicrhau bod gan y staff y cyfarpar i gynnig gweithgareddau ysgogol a chyffrous i'r plant.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn wybodus am yr arferion gofal plant presennol, a nodir hyn yn y Datganiad o Ddiben sy'n hawdd ei ddeall. Mae'r ddogfen yn gynhwysfawr, ac yn ystod yr arolygiad gwelsom fod y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn diwallu anghenion y plant a'u rhieni. Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu diweddaru a'u rhannu â phob aelod o'r staff. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r holl brosesau i'w dilyn. Mae'r staff yn ymwybodol o'r strwythur rheoli ac yn gwybod y gallant fynd at y rheolwyr am gymorth.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn monitro ac yn gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithiol, ac maent yn sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod yr ardal awyr agored wedi'i gwella drwy gynnwys adran gaeedig wedi'i gorchuddio â rhisglau, sy'n gwella cyfleoedd yn yr awyr agored i'r plant. Cymerir safbwyntiau pawb o ddifrif, a nodir cryfderau a meysydd i'w gwella yn yr Adolygiad Blynyddol o Ansawdd y Gofal, ac mae cynlluniau hirdymor ar gyfer gwelliannau o ganlyniad i hynny. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys datblygu'r ardaloedd awyr agored, prynu rhagor o adnoddau a threfnu cyrsiau mewn modd amserol gan ddefnyddio amserlen hyfforddiant.

Mae'r staff yn gweithio'n dda fel tîm, ac mae pob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau, gan achub y blaen wrth arwain y plant yn briodol. Cadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol fod yr holl ddogfennau ar gael i ddangos bod y broses recriwtio yn gadarn, ac roeddent yn cynnwys arfarniadau blynyddol. Dywedodd y staff eu bod yn rhan o'r gwaith o redeg y gwasanaeth a dywedodd aelod newydd o'r staff ei bod wedi setlo'n dda. O ganlyniad i hyn, mae'r plant wrth eu bodd â'r gofal a ddarperir gan staff brwdfrydig sydd ag agwedd rwydd. Darperir hyfforddiant rheolaidd a pherthnasol, a dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym fod gan bob aelod o'r staff wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Cwblhawyd cyrsiau hyfforddiant cymorth cyntaf, Diogelu a Hylendid Bwyd Sylfaenol, ac roedd rhai tystysgrifau'n cael eu harddangos a oedd yn dangos eu bod yn gyfredol.

Mae'r cydberthnasau â'r rhieni yn gadarnhaol ac yn cyfrannu at lesiant y plant, gan fod modd i'r rhieni ddweud wrth y staff am yr hyn y mae eu plant wedi ei fwynhau yn arbennig. Gwnaethom siarad ag un rhiant a ddywedodd wrthym ei fod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir. Gall y rhieni siarad â'r staff am ofal eu plentyn pan fyddant yn dod â'u plant neu'n eu casglu, ac mae gwybodaeth ddefnyddiol ar hysbysfyrddau. Mae'r arferion hyn yn galluogi'r rhieni/gwarcheidwaid i barhau i fod yn rhan o ofal eu plant.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

**A1 –** cadw cofnod ysgrifenedig pan roddir gwybod i rieni am ddamwain dros y ffôn.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
|---|

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/06/2021